

Gweddi Cynnal Pasg 2022

Arglwydd pob gras a thrugaredd,
plygwn ger dy fron yn wylaidd ac yn ostyngedig,
wrth ddod i ddathlu'r Pasg.

Nid oes i ni hawl na haeddiant wrth ofyn am dy fendith di.
Cyffeswn ein gwendidau, yr amlwg a'r anamlwg, ac ymbil am dy drugaredd.
Gwyddom ein bod yn lestri pridd, sy'n graciau i gyd.
Eto, gwelaist yn dda i ymddangos ar lwyfan daear ym mherson Iesu
a'n gwahodd i gredu ynot a'th ddilyn.

Mae'r byd yn dathlu'r cryf a'r cyfoethog, y grymus a'r dysgiedig,
ond gwelaist yn dda i garu'r bregus a'r sawl a chwalwyd, y gwrthodedig a'r diymgeledd.
Molwn di am i ti ein derbyn fel ag yr ydym, heb gyfrif ein pechodau yn ein herbyn.

Ar ôl y cyfnod hir o gyfyngiadau yn dilyn lledaeniad Covid,
gwelwn mor fregus yw cymdeithas ym mhob gwlad.
Mae'r cryfaf ohonom yn wan, a'r mwyaf deallus yn ddi-ddeall.
Trugarha wrthym.
Mewn byd lle nad oes ateb i drais fel y gwelsom gan Rwsia yn erbyn Wcrain,
cydnabyddwn ein diffyg deall.
Gweddiwn gyda thrigolion yr Wcrain heddiw, a thros holl ffoaduriaid byd.
Ymgeledda hwy ac arwain y ddynoliaeth i ddarparu ar eu cyfer.
Boed i gysgod y Groes gyrraedd pob cuddfan a chell,
a chynnig gobaith yr atgyfodiad mewn byd o drais Gwener y Groglith.

Cofiwn yn benodol am y sawl sydd â dibyniaeth yn llesgedd i'w bywyd -
iachâ hwy Arglwydd.
I'r sawl sy'n crwydro'n ddigyfeiriad mewn bywyd, arwain hwy.
I'r sawl sy'n farwaid eu gwedd ac yn galon galed, er yn brysur yn y byd -
bywha hwy drwy dy Ysbryd.
Boed i oleuni'r Atgyfodiad lewyrchu yn ein llwydni myglyd ni.
Hyn a ddeisyfwn yn enw Crist y bedd gwag.
Amen.